



CYMRYD RHAN



Yn Cartrefi
Cymunedol
Gwynedd rydym
am i denantiaid
a phreswylwyr
fod yn ganolog
i'n gwaith. Rydym
felly eisiau sicrhau
ein bod yn
gwrando arnoch,
yn gofyn eich
barn yn rheolaidd
ac yn eich
cynnwys yn ein
gweithgareddau.

SUT I GYMRYD RHAN?

Rydym eisiau i chi'n helpu ni i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau 'rydym yn eu cynnig i chi fel cwsmeriaid. Dyma'ch cyfle chi i ddylanwadu ar y gwasanaeth 'rydych yn ei dderbyn.

Mae CCG yn cynnig sawl ffordd gwahanol o gyfranogi a gallwch ddewis yn ôl eich diddordebau ac amgylchiadau personol. Mae hyn yn golygu y gallwch chwarae cymaint neu cyn lleied o ran ag yr hoffech yn ein gweithgareddau.

Mae gwybodaeth yn y daflen hon am y gwahanol ffyrdd y gallwch gymryd rhan gyda CCG, gyda disgrifiad o beth yw pwrpas a gofynion pob gweithgaredd.



Siarad



Defnyddio cyfrifiadur



Gwaith papur



Defnyddio'r ffôn



Mynd i gyfarfodydd



**Faint o'ch ymroddiad
ac amser sydd angen**

Os hoffech gael y daflen hon
mewn fformat gwahanol, fel
Braille, llythrennau bras, neu
mewn iaith arall, cysylltwch â ni
ar 0300 123 8084.

0300 123 8084
www.ccgwynedd.org



Gweithgaredd**Aelod o Fwrdd CCG****Pwrpas**

Mae bod yn aelod o Fwrdd CCG yn rôl ddiddorol a heriol. Dyma'r corff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau pwysig ac mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr aelodau am yr hyn sy'n digwydd yn CCG. Drwy ddod yn aelod o'r Bwrdd byddwch yn dod yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol ar y cwmni. Mae lle i 4 aelod tenant ar Fwrdd CCG.

Gofynion**Gweithgaredd****Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG****Pwrpas**

Dyma'r prif grŵp sy'n gweithio efo CCG ar bob mater yn ymwneud â thenantiaid a phreswylwyr.

Gofynion**Gweithgaredd****Fforwm Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)****Pwrpas**

Cydweithio gyda CCG ar bob agwedd yn ymwneud â'r rhaglen welliannau gan gynnwys dewis a monitro contractwyr, llunio safonau gwasanaeth a chymeradwyo polisïau.

Gofynion**Gweithgaredd****Fforwm Gwasanaethau Cwsmer o Safon****Pwrpas**

Edrych ar bob gwasanaeth yn ei dro er mwyn sicrhau fod pob gwasanaeth yn seiliedig ar ofal ac anghenion y cwsmer.

Gofynion

Gweithgaredd **Fforwm Budd Cymunedol**

Pwrpas

Sicrhau fod holl weithgareddau CCG yn cyfrannu at wella ein cymunedau. Mae'r fforwm hefyd yn gyfrifol am fonitro Cronfa Buddsoddi Cymunedol CCG.

Gofynion



Gweithgaredd **Fforwm Cyfathrebu**

Pwrpas

Edrych ar y ffordd mae CCG yn cyfathrebu gyda chwsmeriaid gan gynnwys y newyddlen, llythyrau, y wefan a thafleuni gwybodaeth.

Gofynion



Gweithgaredd **Grŵp Cynnal a Chadw**

Pwrpas

Edrych ar y gwaith sydd yn cael ei wneud gan y gwasanaeth trwsio ymatebol ac ar safon y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Gofynion



Gweithgaredd **Tenant Archwilwyr**

Pwrpas

Profi gwasanaethau CCG drwy gynnal archwiliadau a sesiynau 'siopa cudd' i sicrhau fod CCG yn cadw at ei safonau gwasanaeth. Bydd tenantiaid archwilwyr yn derbyn hyfforddiant ar sut i brofi gwasanaethau yn effeithiol cyn ymgymryd ac unrhyw dasgau.

Gofynion



Gweithgaredd**Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr****Pwrpas**

Sicrhau bod gan denantiaid a phreswylwyr gyfle i leisio barn a chymryd rhan ar lefel leol ar faterion sy'n berthnasol i'w cartrefi a'u cymunedau.

Gofynion**Gweithgaredd****Panel Cwsmeriaid CCG****Pwrpas**

Ymgynghori dros y ffôn/ e-bost/ llythyr gyda'r cyfle i ennill gwobr ariannol bob tro y byddwch yn cymryd rhan. Efallai bydd hwn yn apelio i rai sydd ddim yn medru neu ddim yn dymuno mynychu cyfarfodydd rheolaidd.

Gofynion**Gweithgaredd****Cyfranddaliwr****Pwrpas**

Cewch fod yn berchen ar gyfran o CCG am £1 a chael yr hawl i bleidleisio yn y cyfarfod blynyddol.

Gofynion

SUT YDYCH CHI AM GYMRYD RHAN?

HOLIADURON

O bryd i'w gilydd, byddwn yn gofyn i chi roi eich barn ar CCG drwy holiaduron amrywiol e.e. pa mor hapus oeddech chi ar ôl cael gwaith cynnal a chadw ar eich cartref. Bydd eich barn chi yn ein helpu i wella ar gyfer y dyfodol.

GWEITHGAREDDAU ANFFURFIOL

Gwyddwn nad yw mynychu cyfarfodydd a chwblhau holiaduron yn apelio at bawb ac felly byddwn hefyd yn cynnal gweithgareddau mwy anffurfiol trwy'r flwyddyn fel;

- **Dyddiau hwyl i'r teulu**
Byddwn yn cynnal o leiaf un diwrnod o hwyl i'n tenantiaid pob blwyddyn mewn gwahanol leoliadau o amgylch Gwynedd. Mae'r dyddiau o hwyl yn gyfle i chi fwynhau llu o weithgareddau i'r teulu i gyd, ymweld ag amryw o stondinau i gael cyngor a gwybodaeth a chael cyfle i gyfarfod â staff CCG.
- **Sesiynau crwydro stad**
Bydd staff CCG o bob gwasanaeth ar draws y cwmni yn ymweld â stadau amrywiol ar draws Gwynedd.
- **Syrjeri Wardeniaid Cymunedol**
Mae ein Wardeniaid Cymunedol yn cynnal syrjeri lleol yn rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i chi drafod eich pryderon am eich stâd chi. Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Bro am fwy o wybodaeth.

- **Presenoldeb mewn gweithgareddau cymunedol**

Mae CCG yn cefnogi gweithgareddau yn ein cymunedau ac yn manteisio ar y cyfle i gael mynd allan i'r gymuned i gyfarfod ein tenantiaid a'n preswylwyr. Os hoffech chi i ni gael stondin mewn digwyddiadau cymunedol yn eich ardal chi, cysylltwch â'n Tîm Cyswllt Cymunedol.

TWITTER/ FACEBOOK



@CartrefiGwynedd



facebook.com/CCGwynedd

Cofiwch ni fyddwch allan o boced wrth gymryd rhan gyda CCG gan y byddwn yn ad-dalu unrhyw gostau teithio, cyfrifiadurol neu ofal plant.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan gyda CCG, cwblhewch y ffurflen hon a'i ddychwelyd atom. Bydd aelod o'r Tîm Cyswllt Cymunedol yn cysylltu gyda chi mor fuan a phosib i drafod ymhellach.

Enw llawn:

Dyddiad geni:

Cyfeiriad:

Rhif cyswllt:

E-bost:

Mae gen i ddiddordeb mewn ymuno â:

- Bwrdd CCG**
- Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG**
- Fforwm Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru**
- Fforwm Gwasanaethau Cwsmer o Safon**
- Fforwm Budd Cymunedol**
- Fforwm Cyfathrebu**
- Grŵp Cynnal a Chadw**
- Tenant Archwilwyr**
- Cymdeithas Denantiaid a Phreswylwyr**
- Panel Cwsmeriaid**
- Cyfrandaliwr**

Hoffwn dderbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau.

Llofnod:

Dyddiad:

Plygwch a seliwch y ffurflen hon a'i phostio at:

Cyswllt Cymunedol, CCG, PO BOX 206, Bangor, Gwynedd, LL57 9DS





PLYGWCH

PLYGWCH



Cyswllt Cymunedol
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
PO BOX 206
Bangor
Gwynedd
LL57 9DS

